Canllaw i athrawon ar hunanwerthuso ysgol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Pecyn Cyfnod Allweddol 2

Trosolwg
a
thalfyriadau, acronymau a geirfa

Fersiwn 1.0 Tachwedd 2012

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y pecyn hwn at:

Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6014

e-bost: IMS@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn **dysgu.cymru.gov.uk**

ISBN digidol 978 0 7504 8392 6
© Hawlfraint y Goron 2012
WG17118

Beth yw 'Canllaw i Athrawon ar Hunanwerthuso Ysgol'?

1.1 Hunanwerthuso Ysgol

Er mwyn gwella ysgolion a'u heffeithiolrwydd yng Nghymru, rhaid wrth ffocws cryf ar hunanwerthuso, her a chymorth mewn ysgolion. Mae disgwyl i ysgolion weithredu yn unol â diwylliant o adolygu a gwella parhaus, ac mae hunanwerthuso yn rhan hanfodol o'r broses hon.

Yn ogystal â hyn, mae'n ddyletswydd statudol ar gyrff llywodraethu i bennu targedau o ran perfformiad ac absenoldeb ar gyfer eu hysgolion sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd drwy'r broses hunanwerthuso.

Bydd gwaith hunanwerthuso effeithiol yn helpu athrawon i nodi'r canlynol:

- pa mor dda y mae eu hysgol yn perfformio
- beth sydd angen ei wella
- pa gamau y dylid eu cymryd i wneud y gwelliannau hynny.

1.2 Canllaw i Athrawon ar Hunanwerthuso Ysgol: Pecyn Cyfnod Allweddol 2 (CA2)

Lluniwyd y pecyn hwn i helpu athrawon sy'n anghyfarwydd â hunanwerthuso ysgol i ddeall a defnyddio'r dadansoddiadau data y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu at y diben hwn.

Mae '**Pecyn Cyfnod Allweddol 2'** yn cynnwys enghreifftiau o dri datganiad data perfformiad lefel ysgol allweddol, a thair dogfen ganllaw a luniwyd i helpu athrawon i wneud y defnydd gorau o'r data perfformiad hyn.

Y tri datganiad data perfformiad allweddol a ddarperir yw:

a) **Adroddiad Cymharol Ysgol CA2**
   data 2011/12 - rhyddhawyd ddiwedd mis Awst 2012

b) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Pecyn Cyd-destunol CA2**
   data 2011/12 - rhyddhawyd ddechrau mis Medi 2012

c) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Pecyn Perfformiad CA2**
   data 2011/12 - rhyddhawyd ddechrau mis Medi 2012.

Y tair dogfen ganllaw yw:

ch) **Llinell Amser Data Perfformiad Ysgol - CA2**

Yn rhoi dyddiadau allweddol, crynodeb o'r datganiadau data allweddol o ran hunanwerthuso, crynodeb o gasgliadau data disgyblion Llywodraeth Cymru, a chyd-destun deddfwriaethol y rhain.

d) **Data Dadansoddi Perfformiad Ysgol: Dadansoddiad Enghreifftiol CA2**

dd) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2**

Yn rhoi cyfarwyddyd manwl ar sut y dylid defnyddio Setiau Data Craidd Cymru Gyfan i hunanwerthuso.

1.3 Data ychwanegol

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio bwletinau ystadegol a datganiadau data ychwanegol yr hoffai athrawon eu defnyddio o bosibl i'w helpu gyda'r gwaith o hunanwerthuso ysgol. Am ragor o wybodaeth, ewch i Wefan Ystadegau Ysgolion Llywodraeth Cymru neu Wefan StatsCymru.

Talfyriadau, Acronymau a Geirfa

Acronym/ Byrfodd	Eitem	Disgrifiad
	Adroddiad Cymharol Ysgol	Mae Adroddiad Cymharol Ysgol yn rhoi crynodeb o berfformiad ysgol yn yr asesiadau a gynhelir ar ddiwedd CA2, dros amser ac o gymharu â pherfformiad yr ALl a pherfformiad Cymru ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Bwriedir iddo fod o gymorth i waith hunanwerthuso a gwella perfformiad ysgol. Mae'n ddyletswydd reoliadol ar ysgolion i gyhoeddi eu Hadroddiad diweddaraf yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a Phrosbectws yr Ysgol.
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig	Mae'r term AAA yn cyfeirio at blant ag anawsterau neu anableddau dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mae gwahanol lefelau o AAA: gall disgyblion fod yn rhan o gynllun gweithredu gan yr ysgol, cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu gall fod ganddynt ddatganiad. Mae awdurdodau lleol gwahanol yn defnyddio polisïau AAA gwahanol ac felly nid oes un ffordd gyson o nodi lefel yr angen. Lle caiff cymariaethau eu gwneud er mwyn rhannu ysgolion yn Deuluoedd, felly, dim ond y rhai sydd â Datganiad a'r rhai sy'n rhan o gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a ddefnyddir.
ALl	Awdurdod Lleol	Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu addysg mewn ysgolion a gynhelir, ac am wella ysgolion.
	Casglu Data Cenedlaethol	Mae'r ymarfer Casglu Data Cenedlaethol yn digwydd yn ystod tymor yr haf. Ymarfer electronig ydyw i gasglu data asesu athrawon ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3. Defnyddir y data hyn i lunio'r Adroddiad Cymharol Ysgol a Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Fe'u defnyddir hefyd gan Estyn fel ei phrif ffynhonnell ddata i lywio ei harolygiadau. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymarfer Casglu Data Cenedlaethol, gan gynnwys nodiadau cwblhau, ar gael yma.
	Casglu Data Presenoldeb	Mae'r ymarfer casglu data presenoldeb yn casglu data presenoldeb ar gyfer pob disgybl o oedran ysgol gorfodol a oedd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod adrodd. Mae rhagor o wybodaeth a nodiadau cwblhau ar gael yma.
	Consortia	Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi ffurfio pedwar grŵp rhanbarthol, a elwir yn gonsortia. Mae'r consortia hyn yn cydweithio i wella ysgolion.
	Cwricwlwm Cenedlaethol/ Lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol	Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn pennu safonau cyflawniad ym mhob pwnc ar gyfer disgyblion rhwng 7 a 14 oed. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae'r safonau hyn yn amrywio o Lefel 1 i Lefel 8. Mae disgyblion yn symud o un lefel i'r llall wrth iddynt dyfu'n hŷn a dysgu mwy: • mae disgwyl i'r rhan fwyaf o ddisgyblion 11 oed gyflawni Lefel 4 • mae disgwyl i'r rhan fwyaf o ddisgyblion 14 oed

		gyflawni Lefel 5 neu 6
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion	Ymarferion statudol i gasglu gwybodaeth am ysgolion, manylion a nodweddion disgyblion.
DPC	Dangosydd Pynciau Craidd	Mae'r DPC yn fesur o gyrhaeddiad cyffredinol. Mae'n rhaid i asesiadau ddangos bod disgyblion yn cyflawni lefel ddisgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol neu'n uwch (h.y. lefel 4+ yn CA2) ym mhob un o'r pynciau craidd, sef Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, i gyflawni'r DPC.
	Disgyblion â Datganiad	Disgyblion ag asesiad statudol o Anghenion Addysgol Arbennig. Am ragor o wybodaeth, darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd hyn.
Ffynnon		Ffynnon yw system rheoli perfformiad Cymru gyfan.
	Gweithredu gan yr Ysgol	Pan fo athro dosbarth / arbenigwr AAA yn canfod bod gan blentyn AAA, dylai'r athro dosbarth baratoi ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm gwahaniaethol a strategaethau arferol yr ysgol neu sy'n wahanol iddynt (Gweithredu gan yr Ysgol). Am ragor o wybodaeth, darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd hyn.
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Lefel ychwanegol o gymorth y tu hwnt i'r hyn a ddarperir o dan Gweithredu gan yr Ysgol i ddisgyblion ag AAA. Am ragor o wybodaeth, darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd hyn.
Meincnodi FSM	Meincnodi Prydau Ysgol am Ddim	Mae data cenedlaethol yn dangos yn gyson bod cysylltiad rhwng canran y disgyblion sy'n gymwys i gael FSM mewn ysgol a deilliannau perfformiad. Yn gyffredinol, mae cyrhaeddiad yn gostwng pan fo lefelau cymhwysedd FSM yn cynyddu. Byddai'n annheg cymharu ysgolion sydd â ffigurau FSM isel iawn â'r rhai sydd â ffigurau uchel iawn. I oresgyn y broblem hon, mae ysgolion wedi'u gosod mewn pum grŵp meincnodi ar sail canran y disgyblion sy'n gymwys i gael FSM. Caiff ysgolion eu cymharu o fewn eu grŵp FSM a'u gosod mewn chwarteri yn dibynnu ar eu perfformiad.
DEWi	Menter Cyfnewid Data Cymru	System ddiogel ar-lein i drosglwyddo, dilysu a chofnodi ffeiliau.
	Fy Ysgol Leol	Gwefan sydd i'w lansio gan Lywodraeth Cymru yn ystod Gwanwyn 2013 yw Fy Ysgol Leol. Ei nod yw sicrhau bod data ar berfformiad ysgolion ar gael yn haws i rieni. Gall hefyd fod o ddiddordeb i eraill, fel disgyblion a llywodraethwyr.
FSM	Prydau Ysgol am Ddim	Mae nifer o ffyrdd o fesur amddifadedd cymdeithasol, ond y ffordd fwyaf cyffredin yw drwy ddefnyddio data ar brydau ysgol am ddim (FSM). Yn gyffredinol pan fo nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cynyddu, mae lefelau perfformiad yn gostwng. Fodd bynnag, nid yw hon yn gydberthynas bendant ac mae rhai ysgolion yn perfformio'n well yn gyson nag ysgolion eraill â lefelau tebyg neu is o FSM.
SIY	Saesneg fel	Bydd disgyblion SIY wedi caffael sgiliau Saesneg i lefelau

	Iaith Ychwanegol	gwahanol. Os mai lefel isel o sgiliau y mae disgyblion wedi'u caffael, gall hyn effeithio ar eu gallu i ddilyn gweddill y cwricwlwm, felly mae'n bwysig ystyried pa adnoddau neu gymorth ychwanegol sydd eu hangen ar y disgyblion hyn.
	Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Mae 'Setiau Data Craidd Cymru Gyfan' yn cynnwys Pecyn Cyd-destunol Cyfnod Allweddol 2 a Phecyn Perfformiad Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer pob ysgol. Maent yn darparu cyfres gyson a chytbwys o ddadansoddiadau cyd-destunol ar gyfer asesiadau ar ddiwedd CA2. Fe'u bwriadwyd i helpu ysgolion i hunanwerthuso a gwella perfformiad ac i lywio gwaith gyda Swyddogion Gwella Awdurdodau Lleol a Chonsortia ac Estyn.
	Teuluoedd o ysgolion	Grwpiau o ysgolion yw'r rhain sy'n wynebu'r un lefel o her yn gyffredinol a all weithio gyda'i gilydd i wella ysgolion. Crëwyd y teuluoedd drwy rannu ysgolion yn grwpiau yn seiliedig ar eu maint a'u hiaith addysgu i ddechrau ac yna, o fewn pob grŵp lefel uchel, caiff ysgolion eu gosod mewn trefn ddisgynnol yn unol â gwerthoedd mynegrif 'her'. Cyfrifir y mynegrif hwn ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, lefelau amddifadedd, disgyblion ag AAA a disgyblion SIY.